

Mae EPS yn sefydliad blaenllaw ym meysydd cydraddoldeb ac amrywiaeth, hawliau dynol, cydlyniant cymunedol ac adnoddau dynol sy'ndarparu datrysiadau wedi'u teilwra.

EPS yw'r sefydliad cyntaf yng Nghymru a'r unig un sydd wedi'i drwyddedu i archwilio a chyflenwi Safon *Committed 2 Equality* (C2E).

Mae enill nod barcud C2E yn rhoi gwybod i gleientiaid posibl o'r sector cyhoeddus fod gennych chi bolisïau, gweithdrefnau ac arferion allweddol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o fewn eich sefydliad chi, sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol ac yn hyrwyddo arfer da.

Ymchwil & Gwerthuso

Rheoli & Datblygu Pobl

Amrywiaeth & Chydraddoldeb

Arferion Caffael

Archwilio, Hyfforddi & Ymgynghori

Beth yw C2E?

- Mae C2E yn rhaglen Achredu Sicrhau Amrywiaeth sydd wedi'i ardystio gan SFEDI ac a gaiff ei chydabod yn genedlaethol, sy'n hwyluso sefydliadau i ddatblygu a gwella'u dull o weithredu cydraddoldeb.

- Mae'r rhaglen yn galluogi sefydliadau i ddatblygu a dangos dealltwriaeth glir o'r achos cyfreithiol a busnes dros weithredu arferion a gweithdrefnau sy'n seiliedig ar gydraddoldeb.

- Mae dyletswydd statudol cyffredinol ar bob awdurdod lleol i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac i hyrwyddo cyfle cyfartal a pherthnasau da ar draws pob swyddogaeth gan gynnwys caffael.

- Mae tendro llwyddiannus yn dibynnu ar fod yn sefydliad sy'n gyfredol ac sy'n cydymffurfio.

- Yn achos rhai cwmnïau, gall peidio â gallu dangos yn glir eu bod nhw'n gallu cwrdd ag anghenion cyfartaledd cleientiaid sector cyhoeddus wneud y gwahaniaeth rhwng llwyddo mewn tendr ai peidio.



Beth yw manteision cyrraedd safon C2E?

Mae'r Achrediad Sicrhau Amrywiaeth yn cynnig cefnogaeth, datblygiad ac ardystiad nod barcud i chi allu dangos eich hymrwymiad i gydraddoldeb.

Mae hyn yn dod yn gynyddol bwysig i sefydliadau sydd eisiau:

- Llwyddo wrth dendro a chyflenwi gwasanaethau i gyrff cyhoeddus megis awdurdodau lleol a'r GIG.

- Cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol, osgoi anghydfodau gwaith a hyrwyddo arfer da.

- Dangos i'w gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr eu bod nhw'n ymrwymo i arferion cynhwysol yn y gweithle ac wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae enill nod barcud C2E yn rhoi gwybod i gleientiaid posibl o'r sector cyhoeddus fod gennych chi bolisïau, gweithdrefnau ac arferion allweddol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o fewn eich sefydliad chi, sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol ac yn hyrwyddo arfer da.



Sut ydw i'n cyrraedd Safon C2E?

Fe allwch chi gyrraedd y safon o fewn 8 - 12 wythnos. Bydd un o'n ymgynghorwyr cymwys yn eich arwain chi'r holl ffordd hyd at yr archwiliad. Fe wnawn ni weithio gyda'r hyn sydd gyda chi eisoes a'ch helpu chi i lenwi'r bylchau.

Proses C2E:

Cyfarfod cychwynnol gydag ymgynghorydd EPS - eglurhad o'r broses a holiadur hunanasesu



Adolygu'r holiadur hunanasesu – adnabod unrhyw feysydd cymorth arbenigol sydd eu hangen ar gyfer cyrraedd safon C2E



Darparu unrhyw gefnogaeth ychwanegol



Archwiliad C2E



Dyfarnu Achrediad C2E



Eisiau gwybod mwy?

Os hoffech chi wybod mwy am raglen C2E neu unrhyw un o'n gwasanaethau eraill, cysylltwch â ni:

T: 029 20 400015

Ff: 0795 718 5136

M: 0789 903 3726

Llawr Cyntaf, 84 Windsor Rd
CF64 1JL

info@epracs.com
eps@eps.gb.com

www.eps.gb.com

Mae'r enghreifftiau o sefydliadau yng Nghymru sydd eisoes wedi cyflawni C2E gydag EPS a chefnogaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Annog Enterprise
- Antur Teifi
- Adran Busnes a Mentergarwch (Cymorth Busnes) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Datblygu Busnes & Mentergarwch Datblygu Economaidd - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Business in Focus
- Centre for Business
- Venture Wales

